# Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro wedi cynnal adolygiad o Gyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro. Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn edrych ar 23 o rywogaethau (neu grwpiau o rywogaethau) a chynefinoedd (neu grwpiau o gynefinoedd) yn y sir a gafodd eu hastudio yn 2011 ac yn darparu diweddariad ar statws a thueddiadau presennol ymysg y nodweddion hyn fel metrig o'r sefyllfa debygol yn yr amgylchedd ehangach.


Llun: Trevor Theobald


Llun: David Harries


Llun: Trevor Theobald


Llun: Kite Ecology

Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i rai llwyddiannau, ond mae llawer o waith ar ôl i'w wneud er mwyn atal (a gwyrdroi) y dirywiad o ran bioamrywiaeth. Darperir tabl cryno isod. Mae'r prif ffigyrau yn cynnwys y canlynol:

- Roedd 70% o'r nodweddion a aseswyd mewn cyflwr gwael neu gymedrol (ac felly yn is-optimaidd)
- Roedd 57% o'r nodweddion a aseswyd yn sefydlog neu'n gwella (yn atal y dirywiad)
- Roedd 30% o'r nodweddion a aseswyd yn dirywio
- Nid oedd digon o ddata ar gael i asesu tueddiadau a/neu gyflwr 26% o'r nodweddion
- Bydd pob un o'r nodweddion yr aseswyd eu bod mewn cyflwr da neu yn gwella yn destun ymdrech gadwraethol barhaus

Cyflwynir yr adroddiad yn erbyn cefnlen o

**PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP**

**PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO**

**Cyfrol 13 Rhifyn 2**
**Haf 2016**

## Yn y rhifyn hwn

Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro
**Tudalennau 1-2**

Gwarchodfa Natur Llyn y Felin Uchaf Penfro yn Elwa o Gymorth Ariannol y Co-op
**Tudalennau 2-3**

Grŵp cofnodi bywyd gwyllt newydd i Sir Benfro
**Tudalen 3**

Gwarchod y Parc
**Tudalennau 3-4**

Arolwg Draenogod Môr Ynys Sgomer
**Tudalennau 4-5**

Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro
**Tudalennau 5-6**

Rheoli Palu am Abwyd yn y Gann
**Tudalennau 6-7**

Y Prosiect Llawen yn mynd yn wyllt y Gwanwyn hwn!
**Tudalen 8**

Digwyddiadau
**Tudalennau 9-11**

Manylion Cysylltu
**Tudalen 12**

Arwyr Bywyd Gwyllt Cymru
Welsh Wildlife Heroes
The co-operative Cymru/Wales
natur cymru
WALES

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

CHEERFUL PROJECT
Prosiect Llawen

**Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**
**anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551**

ddeddfwriaeth newydd a gwell sydd â'r nod o sicrhau bod gwarchod a gwella amgylchedd naturiol y wlad yn rhan annatod o fywyd cyhoeddus yng Nghymru.

| Nodwedd | Cyflwr | Tuedd |
|---|---|---|
| Rhostir | Gwael | Diffyg Data |
| Mursen y de | Gwael | Dirywio |
| Crafanc trillob | Cymedrol | Sefydlog |
| Pyllau a llynnoedd | Cymedrol | Gwella |
| Afonydd, ffrydiau a ffosydd | Cymedrol | Gwella |
| Dyfrgwn | Da | Sefydlog |
| Cloddiau | Diffyg Data | Sefydlog |
| Ystlumod | Cymedrol | Sefydlog |
| Coetir derw | Cymedrol | Gwella |
| Pathew cyll | Diffyg Data | Diffyg Data |
| Ymylon tir âr | Diffyg Data | Dirywio |
| Adar tir fferm | Gwael | Dirywio |
| Glaswelltir | Diffyg Data | Dirywio |
| Brith y gors | Gwael | Dirywio |
| Ffyngau glaswelltir | Da | Sefydlog |
| Cudyll coch | Cymedrol | Diffyg Data |
| Clogwyni a llethrau arfordirol | Cymedrol | Gwella |
| Brân goesgoch | Cymedrol | Sefydlog |
| Adar Gwlyptir | Cymedrol | Sefydlog |
| Fflatiau llaid | Gwael | Sefydlog |
| Wystrys brodorol | Gwael | Dirywio |
| Môr-wyntyll pinc | Cymedrol | Dirywio |
| Morlo llwyd | Da | Gwella |

Gallwch lawrlwytho adroddiad gwreiddiol 2011 a diweddariad 2016 o'n gwefan: http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1626,109,135&parent_directory_id=646

**Ant Rogers**
Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

## Gwarchodfa Natur Llyn y Felin Uchaf Penfro yn Elwa o Gymorth Ariannol y Co-op

Yn 2015, rhoddodd busnesau bwyd y Co-operative yr arian a godwyd o ganlyniad i'r 5c y maen nhw'n ei godi am fagiau plastig i brosiectau bywyd gwyllt ledled Cymru. Mae chwe Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru yn defnyddio'r cymorth ariannol hwn i achub ein lleoedd gwyllt mwyaf bregus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru wedi bod yn ffodus i dderbyn cymorth trwy'r fenter hon, sydd wedi ei chynorthwyo i gwblhau gwaith pwysig yng Ngwarchodfa Natur Llyn y Felin Uchaf Penfro yn ddiweddar. Dros y degawd diwethaf, mae'r warchodfa wedi sychu'n sylweddol oherwydd diffyg dŵr yn llifo trwy'r ardal gorsiog sydd wedi arwain at rywogaethau gwrychog ac ymledol yn lledu i'r cynefin corsennog ac at ffosydd yn cael eu cau gan lifwaddod.


Clirio ffosydd

Cyflogodd yr Ymddiriedolaeth gwmni Gwasanaethau Rheoli Dŵr Aquaclear o Angle, a ddefnyddiodd gerbydau amffibiaidd 'Truxor' i glirio'r ffosydd a'r sianeli caeedig er mwyn gorfodi dŵr yn ôl i'r ardal gorsiog. Yn ogystal, cliriodd y cwmni lifwaddod o'r ardaloedd lle mae'r cyrs yn cwrdd â'r llyn er mwyn atal y cyrs rhag lledaenu i'r dŵr agored, sy'n ardal bwysig i adar hirgoes megis y gwyach a'r crëyr glas. Mae lefel y dŵr eisoes wedi codi'n sylweddol ac mae cyrs newydd yn tyfu unwaith eto. Bydd lefel dŵr uwch yn galluogi rhywogaethau eraill megis glas y dorlan, dwrgwn, brogaod, llyffantod, gweision y neidr a mursennod i ffynnu.


Cliro helyg a gwerni

Treuliodd Aquaclear, gwirfoddolwyr o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a phobl leol amser yn clirio helyg a gwerni o'r ardal gorsiog er mwyn eu hatal rhag lledaenu a sicrhau bod ardaloedd o ddŵr agored yn aros yn agored. Yn ogystal, adeiladwyd gwâl dwrgwn ffug er mwyn darparu cysgod addas ac annog y rhywogaeth hon i fridio yn y warchodfa. Mae dwrgwn yn defnyddio'r warchodfa ac ardal ehangach Llyn y Felin yn rheolaidd. Bydd gwaith pellach i reoli helyg a gwerni'n parhau yn ystod y gaeaf a bydd lefel y dŵr yn cael ei monitro trwy gydol y flwyddyn.
Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru yn ddiolchgar am y cymorth mae'r Co-op wedi ei roi i'r prosiect hwn.

**Nathan Walton**
Swyddog Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Benfro

# Grŵp cofnodi bywyd gwyllt newydd i Sir Benfro

Byddai'n wych annog naturiaethwyr brwdfrydig a gwylwyr bywyd gwyllt nad ydynt yn cyfrannu'n weithredol at gofnodi ar hyn o bryd i gwrdd er mwyn gwylio a chofnodi bywyd gwyllt yng nghefn gwlad hyfryd Sir Benfro. Gan gydweithio â Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, byddwn yn gallu targedu sgwariau 1km$^2$ nad ydynt wedi cael eu cofnodi'n drwyadl ar hyn o bryd, neu archwilio safleoedd o ddiddordeb bywyd gwyllt penodol. Nod y grŵp fydd nodi'r rhywogaethau a welir yn gywir a chyflwyno'r canlyniadau fel cofnodion biolegol i'r Ganolfan.

Estynnwn groeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb brwd mewn hanes naturiol i gymryd rhan, ni waeth beth yw eu profiad na lefel eu gwybodaeth. Darperir cymorth i'r sawl sy'n ddibrofiad o ran y broses o gofnodi biolegol a bydd y Ganolfan yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu dilysu a'u hychwanegu at eu cronfa ddata yn gywir.



***Andrena sp.* gwrywaidd. Gwenynen ar ddant y llew.**
Llun: Clare Flynn

Os gallwn ddenu pobl frwdfrydig a mentrus ynghyd, byddwn yn canolbwyntio ar y mwynhad ar y cyd o dreftadaeth naturiol Sir Benfro a sicrhau ein bod yn casglu data biolegol o ansawdd uchel, a fydd yn helpu ni i lenwi'r blychau yng nghofnodion y sir. Os hoffech chi gael sgwrs am fynychu'r digwyddiad, anfonwch neges e-bost at fieryclearwing@gmail.com

**Clare Flynn**
Naturiaethwr

# Gwarchod y Parc

''Gwarchod y Parc' yw cynllun blaenllaw Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ar gyfer cydweithio â thirfeddianwyr preifat yn y Parc Cenedlaethol. Bu'n offeryn pwerus ar gyfer darparu cynlluniau rheoli tir ymarferol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau pwysig.

Y tu allan i ardaloedd dynodedig a phob cynllun fferm amaeth-amgylcheddol, mae bylchau yn y cymorth sydd ar gael i dirfeddianwyr sy'n dyheu i reoli eu tir er budd bywyd gwyllt a'n nod ni yw llenwi'r bylchau hyn!

Ar hyn o bryd, rydym yn cefnogi gwaith mewn dros gant o safleoedd ac yn dylanwadu ar reolaeth ar oddeutu 3,981 hectar o dir trwy gymysgedd o gytundebau rheoli tir, grantiau a chymorth ymarferol trwy ein tîm o wardeniaid a darparu anifeiliaid pori trwy Rwydwaith Anifeiliaid Pori Sir Benfro.

Mae'r cynllun yn cefnogi safleoedd cymunedol, megis mynwent Eglwys Ystagbwll, sy'n gartref i lu o flodau gwylltion er gwaethaf ei maint bychan(0.25 hectar yn unig), gan gynnwys rhywogaethau dolydd sych (megis llygad yr ychen a'r bengaled ddu), rhywogaethau coetir (gan gynnwys mwsglys a garlleg gwyllt) a rhywogaethau tiroedd pori llaith (megis llysiau'r angel ac erwain). Gyda chymorth gwasanaeth y wardeniaid, mae gwirfoddolwyr yn cribinio'n flynyddol er mwyn sicrhau bod y safle'n parhau i gael ei reoli mewn modd sensitif.



Blodau gwyllt ym mynwent Ystagbwll

Yn benodol, rydym yn parhau i gefnogi ffermwyr a thirfeddianwyr ger yr arfordir gyda gwaith rheoli pori a llystyfiant. Mae Hill Farm wedi bod yn rhan o'r cynllun ers nifer o flynyddoedd ac mae'r fferm wedi'i lleoli ar gylchdaith arfordirol boblogaidd ger Maenorbŷr. Mae'r blodau arfordirol yn ardderchog yma yn ystod y gwanwyn, ac yn cynnwys gludlys arfor, clustog Fair, sêr y gwanwyn, a theim gwyllt ymysg eraill. Mae brain coesgoch ac ehedyddion yn ymwelwyr cyson hefyd. Mae darparu cymorth ymarferol i'r tirfeddiannwr trwy'r cynllun er mwyn rheoli'r llystyfiant a'r anifeiliaid pori ar lethrau'r arfordir wedi sicrhau bod yr ardal hon yn cynnal amrywiaeth



Cymorth ymarferol i reoli llystyfiant

o gynefinoedd agored a phrysgwydd.


**Sarah Mellor**
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Arfordir Sir Benfro

## Arolwg Draenogod Môr Ynys Sgomer

Draenogod môr yw 'cwningod' y byd morol ac maen nhw'n hanfodol ar gyfer cynnal bioamrywiaeth. Nhw yw porwyr pwysicaf arwyneb creigiau, gan fwydo ar wymon ac anifeiliaid crawennog a hwfro'r creigiau'n lân. Mae hynny'n helpu i ostwng dwysedd y rhywogaethau goruchafol a rhyddhau gofod i larfa ymgartrefu, gan felly hybu amrywiaeth o rywogaethau.

Yn Sir Benfro yn y 1960au a 1970au, casglwyd draenogod môr wrth i boblogrwydd blymio dyfu. Tynnwyd yr anifeiliaid o'u cregyn, cyn i'r cregyn gael eu cannu, eu sychu a'u cadw fel swfenîr. Targedwyd safleoedd o amgylch Ynys Sgomer a chynyddodd y pryder am effeithiau ecolegol y gor-gasglu. Arweiniodd hynny at yr awgrymiadau cyntaf bod angen gwarchod yr ardal forol o amgylch yr ynys ac, erbyn 1971, cynigiwyd gwarchodfa forol gan grŵp o naturiaethwyr a biolegwyr o'r Cyngor Astudiaethau Maes. Pedwar deg pum mlynedd yn ddiweddarach, Parth Cadwraeth Morol Sgomer yw'r ardal forol sydd wedi'i hastudio fwyaf yn y DU, gyda

rhaglen monitro gydnabyddedig hirsefydledig yn arwain y maes.



**Arolygu Draenogod Môr**
Llun: Blaise Bullimore

Cynhaliwyd yr arolygon cyntaf o ddraenogod môr yn Sgomer ym 1979 a 1982, er na chwblhawyd unrhyw arolygon pellach tan 2003, pan drefnwyd tîm o wirfoddolwyr i blymio yn yr ardal er mwyn sefydlu statws y draenogod môr mewn nifer o safleoedd penodol a sicrhau bod data cymharol ar gael ar gyfer arolygon y dyfodol. Parhawyd i gynnal arolygon bob pedair blynedd ers hynny, a chwblhawyd yr arolwg diweddaraf yn 2015 gan grŵp o 29 o wirfoddolwyr. Mae'r gwirfoddolwyr yn cyfri a mesur y draenogod môr ar hyd trawsluniau ym mhob safle.

Nodwyd amrywiaethau mewn dwysedd rhwng safleoedd ym mhob arolwg rhwng 2003 a 2015, sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau o ran pa mor agored yw'r safleoedd i effeithiau'r tonnau a'r prif gerrynt. Cynefinoedd rîff creigiog gyda cheunentydd llydan a chreigiau mawr lle gall y draenogod môr gysgodi rhag effeithiau'r tonnau oedd y safleoedd lle nodwyd y dwyseddau uchaf. I gefnogi'r arolwg, cofnodwyd samplau o sŵoplancton, ac mae'r canlyniadau'n dangos mai ym mis Awst y mae larfa echinoderm ar eu hanterth ym Mharth Cadwraeth Forol Sgomer.

**Kate Lock**
Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro

Mae'r tanau gwyllt anferth a effeithiodd Alberta, Canada ar ddechrau mis Mai 2016, gan ddifetha rhannau o ddinas Fort McMurray a lledaenu dros ardal oddeutu 200,000 hectar o faint, wedi sicrhau sylw i danau heb eu rheoli ar raddfa fawr ar raglenni newyddion ledled y byd.

Mae tân wedi bod yn rhan annatod ac adferol o natur erioed ac mae'r ddynol ryw wedi dynwared y ffenomen naturiol dros y canrifoedd trwy losgi llystyfiant ar bwrpas er budd amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Yn Sir Benfro, mae llosgi llystyfiant yn arfer rheoli tir traddodiadol a hynafol. Pan gaiff ei weithredu'n briodol, mae'n chwarae rhan bwysig mewn cynnal llystyfiant blasus a hygyrch i anifeiliaid pori, yn arwain at fwy o amrywiaeth o rywogaethau ac, yn hollbwysig, yn rheoli dwysedd y llystyfiant (neu lwyth tanwydd) er mwyn osgoi tanau gwyllt peryglus a heb eu rheoli ar raddfa fawr yng nghefn gwlad ar yr adeg anghywir o'r flwyddyn.



**Llosgi rheoledig ger Brynberian**

Partneriaeth o sefydliadau yw Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro sy'n cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, sy'n cael ei rheoli o dan adain Rhwydwaith Amaethyddiaeth Cynaliadwy PLANED. Mae'r grŵp yn gweithio gyda ffermwyr,

tirfeddianwyr a phorwyr ac yn darparu cyngor a chymorth iddynt am losgi llystyfiant rheoledig. Gall y Grŵp gynnig:

- Gwybodaeth am ofynion cyfreithiol llosgi rheoledig
- Cyngor ar gynllunio llosgi rheoledig
- Cymorth i greu cynlluniau llosgi rheoledig
- Cymorth ymarferol i baratoi safleoedd
- Cymorth ymarferol ar ddiwrnod y llosgi, lle bo'n bosibl

Er mwyn lleihau'r effaith ar fywyd gwyllt, caniateir llosgi rhwng:

- 1 Hydref – 31 Mawrth ar ucheldiroedd
- 1 Tachwedd – 15 Mawrth ym mhob man arall

Gellir dadlau y dylid cwtogi'r tymor llosgi ymhellach oherwydd bod y gwanwyn yn cychwyn yn gynt heddiw o gymharu â'r gorffennol. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso'r safbwynt hwn gyda pherygl peidio â gallu llosgi o gwbl yn ystod tymhorau olynol o ganlyniad i gynnydd peryglus mewn llwyth tanwydd.

Yn ddiweddar, mae'r Grŵp wedi bod yn brysur yn gweithio â ffermwyr unigol a chymdeithasau pori. Rydym wedi cwblhau rhaglenni torri mur tân ar gyfer dau dymor ac wedi cynnal digwyddiadau ymwybyddiaeth o losgi rheoledig yn Nhyddewi a Threfdraeth. Darparodd y digwyddiadau hyn gyfleoedd i ffermwyr, tirfeddianwyr, porwyr tiroedd comin, staff sefydliadau rheoli cefn gwlad a gwirfoddolwyr drafod hanfodion llosgi rheoledig.

Yn ystod y cyfnod sych tuag at ddiwedd y tymor llosgi ym mis Mawrth eleni, cynorthwyodd y grŵp nifer o borwyr tiroedd comin i gynnal llosgiadau rheoledig. Trwy fonitro'r llosgiadau a rhannu'r manylion gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub, sicrhawyd bod y tanau wedi'u cynnal yn llwyddiannus gan osgoi galw am gymorth diangen adnoddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

I gael mwy o wybodaeth am waith Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro, cysylltwch â Steve Bradley

**Torri mur tân ar dir comin Castell-blaidd**



o PLANED ar 01834 860965 neu Stevenb@planed.org.uk

**Geraint Jones**
Awdrurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

# Rheoli Palu am Abwyd yn y Gann

Mae'r Gann yn gynefin blaenoriaethol cysgodol sy'n cynnwys gwaddodion cerrig mân cymysg ac mae'n rhan o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (rhan o SDGA Dyfrffordd Aberdaugleddau) ac yn gorwedd o fewn Ardal Gadwraethol Forol Arbennig Sir Benfro. Mae casglu abwyd wedi bod yn digwydd ar raddfa helaeth ar y safle ers nifer o flynyddoedd, gyda phobl yn bennaf yn palu tyllau er mwyn dod o hyd i abwyd gwyrdd, *Alitta virens*. Mae pryder cynyddol bod potensial i'r gweithgarwch effeithio ar isfilod ac arfilod y Gann, yn ogystal â chyfansoddiad gwaddodol y safle. Yn sgil gwaith partneriaeth diweddar, rydym ni gam yn agosach at reoli'r effeithiau hyn.

Mae dau fath o balu'n digwydd yn y Gann: palu rheolaidd at ddiben masnachol a phalu hamdden. Mae'r palwyr rheolaidd yn ymweld â'r safle bron bob dydd ac yn gweithio mewn ffordd drefnus, fel arfer

yn yr un ardal o'r traeth, gan balu tyllau mawr; ond mae palwyr hamdden yn tueddu palu tyllau llai, ar hap ar draws y traeth. Yn gyfreithiol, mae palu am abwyd yn rhan annatod o hawl y cyhoedd i bysgota - mae hawl gan unigolyn gasglu abwyd o flaendraethau ar gyfer defnydd personol, ond mae angen i bysgotwyr masnachol gael caniatâd tirfeddianwyr - heb yr hawl honno, bydd y palwr yn torri'r gyfraith. Mae'r anawsterau'n codi o'r ffaith ei bod hi'n anodd iawn gwahaniaethu rhwng y ddau weithgarwch.



**Tystiolaeth o balu am abwyd**

Rydym yn ffodus iawn bod Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Gadwraethol Forol Arbennig Sir Benfro wedi ariannu adolygiad a ystyriodd astudiaethau achos ar draws y DU. Roedd yr adolygiad yn amhrisiadwy o ran datblygu dealltwriaeth a gwerthuso'r gwahanol opsiynau sydd ar gael.

Trefnodd Sue Burton, Swyddog Ardal Gadwraethol Forol Arbennig Sir Benfro, gyfres o gyfarfodydd i randdeiliaid lle cytunodd cynrychiolwyr o awdurdodau perthnasol, aelodau o'r gymuned bysgota a phalu am abwyd lleol a phreswylwyr lleol i gyflwyno cod ymddygiad i gynnwys rhannu'r traeth yn 'ardaloedd palu' ac 'ardaloedd dim palu'. Yn y pendraw, bydd angen cefnogaeth ddeddfwriaethol neu statudol i gyfyngu casglu abwyd trwy rannu'r traeth yn barthau. Nid yw'n opsiwn cyflym, felly bydd rhaid cyflwyno cod gwirfoddol i gychwyn tra'n disgwyl i'r deddfau gael eu cymeradwyo.

Sefydlodd Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda chymorth Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Gadwraethol Forol Arbennig Sir Benfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Canolfan Astudiaethau Maes Caer Dale a'r gymuned leol orsafoedd samplu ledled y safle er mwyn archwilio cyfansoddiad milodol yr ardal. Mae canlyniadau'r archwiliadau yn dangos bod arfordir tywodlyd isel yn cefnogi nifer fawr o rywogaethau - yn benodol algâu coch, peunlyngyr a saer y tywod. Mae'r arfordir uchaf a chanol yn cynnwys gwaddodion lleidiog llawn cerrig mân a'r lefelau uchaf o balu am abwyd; cofnodwyd llai o amrywiaeth o rywogaethau yn yr ardaloedd hyn.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wedi gosod arwydd i hysbysu casglwyr abwyd o'r cod ac rydym wedi bod yn monitro'r gweithgarwch er mwyn gwirio cydymffurfiaeth.



***Rhannu'r traeth yn barthau***

Ar ôl cynnal gwaith dadansoddi pellach o'r cynefin, rhywogaethau a data monitro gweithgarwch, byddwn yn diwygio'r parthau ymhellach yn y gobaith ein bod ni gam neu ddau yn agosach at reoli effeithiau palu am abwyd yn y Gann.

**Chris Lawrence**
Cyfoeth Naturiol Cymru

# Y Prosiect Llawen yn mynd yn wyllt y Gwanwyn hwn!

Ers Gwanwyn 2015, mae *Span Arts* (elusen celf gymunedol yn Arberth) wedi bod yn cynnal gweithdai, digwyddiadau rhannu sgiliau, teithiau cerdded, darlithoedd a digwyddiadau eraill mewn lleoliadau gwledig ledled canol Sir Benfro fel rhan o'u cynllun diweddaraf: Prosiect Llawen.

Nawr, maen nhw'n mentro i'r awyr agored i ddod â byd natur a'r celfyddydau ynghyd. Yn ystod tymor yr hydref, bydd y prosiect yn cyflwyno rhaglen newydd o weithgareddau a fydd yn eich cynorthwyo chi i weld byd natur mewn ffordd wahanol. Er nad yw manylion y prosiect wedi'u cwblhau eto, gallwch ddisgwyl teithiau cerdded, straeon mewn lleoliadau annisgwyl, barddoniaeth wyllt, gweithdai ap natur digidol a nifer o ddigwyddiadau creadigol eraill sy'n gysylltiedig â byd natur.

Cymaint yw'n cysylltiad rhwng ein creadigrwydd a'n perthynas â natur a bywyd gwyllt, mae'r thema hon yn un amlwg i ni ei harchwilio. Mae ein digwyddiadau wedi eu cynllunio i ddod â phobl ynghyd i ailgysylltu â'i gilydd, eu creadigrwydd mewnol a'r byd o'u cwmpas.

Nod Prosiect Llawen yw lleihau ynysu gwledig a darparu cyfleoedd i bobl gymdeithasu, creu ac adfywio. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael mwy o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â ni ar cheerful@span-arts.org.uk neu ewch i'n gwefan http://www.span-arts.org.uk/tag/the-cheerful-project

**Rowan Matthiessen**
SPAN Arts



**Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**
**anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551**

# Digwyddiadau Bioamrywiaeth
# Mai - Gorffennaf

| Dyddiad | Teitl | Manylion | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| 30 Mai 20:00 | Ystlumod Aruthrol. Castell Carew | Digwyddiad gyda’r nos i’r teulu cyfan lle bydd y gorffennol yn cwrdd â bywyd gwyllt. Cyfle i archwilio un o leoliadau hanesyddol mwyaf arbennig Sir Benfro, dilyn ôl traed y gorffennol, chwilio am ystlumod a gwrando ar eu galwadau. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 31 Mai 20:00 | Ystlumod Aruthrol. Palas Esgob Tyddewi | Digwyddiad gyda’r nos i’r teulu cyfan lle bydd y gorffennol yn cwrdd â bywyd gwyllt. Cyfle i archwilio un o leoliadau hanesyddol mwyaf arbennig Sir Benfro, dilyn ôl traed y gorffennol, chwilio am ystlumod a gwrando ar eu galwadau. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 01 Mehefin 10:30 – 14:30 | Taith Gerdded Daeareg Tyddewi | Daeareg a meini Tyddewi. Taith gerdded dywysedig yng nghwmni Sid Howells | Darwin@darwincentre.com |
| 01 Mehefin 20:00 | Ystlumod Aruthrol. Little Haven | Digwyddiad gyda’r nos i’r teulu cyfan lle bydd y gorffennol yn cwrdd â bywyd gwyllt. Cyfle i archwilio un o leoliadau hanesyddol mwyaf arbennig Sir Benfro, dilyn ôl traed y gorffennol, chwilio am ystlumod a gwrando ar eu galwadau. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 02 Mehefin 11:00 – 12:30 a 14:00 – 15:30 | Taith gerdded gwenyn a thrychfilod. Llys Hilton | Digwyddiad i’r teulu cyfan wedi’i drefnu gan Ganolfan Darwin | Canolfan Darwin: 01437 753196 |
| 03 Mehefin 14:00 | Saffari Trychfilod. Palas Esgob Lamphey | Mae’r ddaear fel jwngl i greaduriaid bach byd natur. Dewch i archwilio byd y bwystfilod bach a chymryd rhan mewn gweithgareddau crefft gyda’n partneriaid, Coetir Colby a Phalas Esgob Llandyfái | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 08 Mehefin 13:30 - 15:00 | Cyflwyniad i wenyn gwyllt Prydain. Coetir Colby | Darlith a thaith gerdded wedi’i hanelu at oedolion sydd â diddordeb | Gerddi Colby: 01834 811885 **Wythnos Bioamrywiaeth Cymru** |
| 10 Mehefin 10:00 | Taith Gerdded yn y Parc. Nanhyfer | Cyflwyniad i dirlun hyfryd Sir Benfro yng nghwmni aelod o staff y Parc Cenedlaethol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 10 Mehefin 13:30 | Taith Gerdded Blodau Gwyllt. Palas Esgob Llandyfái | Cyfle i archwilio planhigion Sir Benfro yng nghwmni arweinydd y Parc Cenedlaethol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |

# Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mai - Gorffennaf

| Dyddiad | Teitl | Manylion | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| 14 Mehefin 18:30 | Picnic yng Ngwarchodfa Natur Gorllewin Williamston | Picnic blynyddol cangen De Sir Benfro Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru | Christine: 01646 673912 |
| 17 Mehefin 10:00 | Taith Gerdded yn y Parc. Saundersfoot | Cyflwyniad i dirlun hyfryd Sir Benfro yng nghwmni aelod o staff y Parc Cenedlaethol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 24 Mehefin 13:30 | Taith Gerdded Blodau Gwyllt. Freshwater East | Cyfle i archwilio planhigion Sir Benfro yng nghwmni arweinydd y Parc Cenedlaethol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 25 Mehefin 11:00 | Dal Crancod. Melin Lanw Carew | Digwyddiad llawn hwyl i'r teulu cyfan. Cyfle i ddysgu mwy am y creaduriaid diddorol hyn | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 01 Gorffennaf 10:00 | Taith Gerdded yn y Parc. Porthgain | Cyflwyniad i dirlun hyfryd Sir Benfro yng nghwmni aelod o staff y Parc Cenedlaethol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 02 Gorffennaf 14:00 | Taith Gerdded Diwrnod Dolydd Cenedlaethol, Tyddewi | Taith Dôl | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 06 Gorffennaf 13:30 | Taith gerdded a sgwrs gwenyn brodorol, Mynwent Dinbych -y-pysgod | Mewn cydweithrediad ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | Julie Garlick: 01646 624800 |
| 08 Gorffennaf 10:00 | Taith Gerdded yn y Parc. Nanhyfer | Cyflwyniad i dirlun hyfryd Sir Benfro yng nghwmni aelod o staff y Parc Cenedlaethol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 15 Gorffennaf 10:00 | Taith Gerdded yn y Parc. Saundersfoot | Cyflwyniad i dirlun hyfryd Sir Benfro yng nghwmni aelod o staff y Parc Cenedlaethol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 22 Gorffennaf 10:00 | Dal Crancod. Melin Lanw Carew | Digwyddiad llawn hwyl i'r teulu cyfan. Cyfle i ddysgu mwy am y creaduriaid diddorol hyn | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 23 Gorffennaf 13:00 | Dal Crancod, Porthclais | Digwyddiad llawn hwyl i'r teulu cyfan. Cyfle i ddysgu mwy am y creaduriaid diddorol hyn | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |

# Digwyddiadau Bioamrywiaeth
# Mai - Gorffennaf

| Dyddiad | Teitl | Manylion | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| 23 – 31 Gorffennaf | Digwyddiad Gwylio Dolffiniaid a Morfilod Cenedlaethol | Ymunwch â ni ar hyd arfordir y sir i wylio’r tonnau a chofnodi unrhyw beth o ddiddordeb | Sea Watch Foundation www.seawatchfoundation.org.uk |
| 26 Gorffennaf 11:00 | Saffari Pwll Dŵr, Coetir Colby | Mewn partneriaeth â’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, dewch i weld y bywyd gwyllt diddorol sy’n byw mewn nentydd a llynnoedd | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 26 Gorffennaf 20:00 | Ystlumod Aruthrol. Palas Esgob Tyddewi | Digwyddiad gyda’r nos i’r teulu cyfan lle bydd y gorffennol yn cwrdd â bywyd gwyllt. Cyfle i archwilio un o leoliadau hanesyddol mwyaf arbennig Sir Benfro, dilyn ôl traed y gorffennol, chwilio am ystlumod a gwrando ar eu galwadau. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 28 Gorffennaf 11:00 | Saffari Trychfilod. Coetir Colby | Mae’r ddaear fel jwngl i greaduriaid bach byd natur. Dewch i archwilio byd y bwystfilod bach a chymryd rhan mewn gweithgareddau crefft gyda’n partneriaid, Coetir Colby a Phalas Esgob LLandyfái | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 02 Awst 20:30 | Ystlumod Aruthrol. Castell Carew | Digwyddiad gyda’r nos i’r teulu cyfan lle bydd y gorffennol yn cwrdd â bywyd gwyllt. Cyfle i archwilio un o leoliadau hanesyddol mwyaf arbennig Sir Benfro, dilyn ôl traed y gorffennol, chwilio am ystlumod a gwrando ar eu galwadau. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 04 Awst 14:30 | Saffari Arfordirol, Caerfai | Cyfle i edrych ar fywyd gwyllt diddorol a rhyfeddodau naturiol yr arfordir | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 01646 624800 info@pembrokeshirecoast.org.uk |
| 04 Awst 10:00 – 14:00 | Diwrnod Darganfod Gwenyn. Coetir Colby | Digwyddiad i deuluoedd | Gerddi Colby: 01834 811885 |
| 18 Awst 10:00 – 14:00 | Diwrnod Darganfod Gwenyn. Coetir Colby | Digwyddiad i deuluoedd | Gerddi Colby: 01834 811885 |

## Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

**This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.**

*Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.*

## Manylion Cysylltu PBSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth,** Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

## Aelodau PBSB

| | |
|---|---|
| Cymdeithas y Tirfeddianwyr | Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro |
| Undeb Amaethwyr Cymru | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt | Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu |
| Cadwch Gymru'n Daclys | Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru |
| MANOR HOUSE Wildlife Park | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru |
| Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro | Llywodraeth Cymru Welsh Government |
| Cyngor Sir Penfro | Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru |